

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Adroddiad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft

Rhagfyr 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddNHAMG@cynulliad.cymru**
Twitter: **[@SeneddNHAMG](https://twitter.com/SeneddNHAMG)**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft

Rhagfyr 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

Cadeirydd y Pwyllgor:



Mike Hedges AC
Llafur Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Andrew RT Davies AC
Ceidwadwyr Cymreig



Llyr Gruffydd AC
Plaid Cymru



Neil Hamilton AC
UKIP Cymru



Jenny Rathbone AC
Llafur Cymru



Joyce Watson AC
Llafur Cymru

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	5
	Y Cefndir	5
	Ystyried yr opsiwn a ffefrir ar gyfer y Fframwaith	6
	Ein dull o weithredu.....	6
	Cynghorydd arbenigol allanol	6
	Cynllun Cymrodoriaeth Academaidd Ymchwil y Senedd	7
2.	Argymhelliad.....	8
3.	Dyheadau a chanlyniadau	9
	Cysylltiadau gofodol a thrawsffiniol ehangach y DU	10
	Canlyniadau.....	11
	Y Gymraeg.....	12
	Rhyngweithio â pholisïau eraill	12
	Sylfaen dystiolaeth	13
	Fframwaith monitro.....	13
	Casgliadau.....	13
4.	Strategaeth	15
	Y tri rhanbarth	15
	Cynlluniau Datblygu Strategol	16
	Ardaloedd Twf.....	17
	Cymru Wledig.....	18
	Tir y sector cyhoeddus.....	19
	Aneddiadau newydd.....	19
	Prifysgolion.....	20
	Casgliadau.....	20
5.	Datgarboneiddio a Newid yn yr Hinsawdd.....	22
	Casgliadau.....	23
6.	Tai.....	24

Amcangyfrif o'r angen am dai	24
Casgliadau.....	26
7. Seilwaith a chysylltedd	27
Casgliadau.....	28
8. Ynni.....	30
Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar	31
Casgliadau.....	32
9. Bioamrywiaeth, seilwaith gwyrdd a'r goedwig genedlaethol	34
Lleiniau Glas.....	35
Casgliadau.....	36
10. Ystyried y Fframwaith gan y Cynulliad	37

1. Cyflwyniad

1. Ar 7 Awst 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddrafft y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y Fframwaith) i ymgynghori yn ei gylch. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 15 Tachwedd 2019. Bwriad ymchwiliad y Pwyllgor yw cyfrannu at ddatblygu fersiwn derfynol y Fframwaith.

Y Cefndir

2. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan mai diben y Fframwaith yw:

- nodi lle mae angen twf a seilwaith o bwysigrwydd cenedlaethol a sut y gall y system gynllunio gyflawni hynny;
- darparu cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol;
- cefnogi penderfyniadau ynghylch ceisiadau o dan y drefn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol;
- ategu strategaethau economaidd, trafndiaeth, amgylcheddol, tai, ynni a diwylliannol cenedlaethol a sicrhau y gellir cyflawni'r rhain drwy'r system gynllunio; a
- bodoli ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru, sy'n disgrifio polisiau cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac a fydd yn parhau i bennu'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir.

3. Disgwylir y bydd fersiwn derfynol y Fframwaith yn cael ei chyhoeddi ym mis Medi 2020. Dechreuodd y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith yn 2016, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi llinell amser yn dangos y gwahanol gamau datbygu:

- casglu tystiolaeth ac ymgymryd â gwaith ymgysylltu i ddatblygu gweledigaeth, amcanion a dewisiadau ar gyfer y Fframwaith (Hydref 2016 - Mawrth 2018);
- cyhoeddi ac ymgynghori ar faterion, dewisiadau a'r dewis a ffefrir o ran y Fframwaith, gyda chymorth asesiadau ac adroddiadau amgylcheddol (Ebrill 2018 - Gorffennaf 2018);
- trafod ymatebion i'r ymgynghoriad ar y dewis a ffefrir a pharatoi'r Fframwaith drafft (Gorffennaf 2018 - Awst 2019);

- ymgynghori ar y Fframwaith drafft, trafod ymatebion a pharatoi adroddiad ymgynghori (Awst 2019 – Mawrth 2020);
- ystyried y Fframwaith drafft gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dros gyfnod ymgynghori statudol o 60 diwrnod (Ebrill – Mehefin 2020); a
- chyhoeddi'r Fframwaith terfynol (Medi 2020).

Ystyried yr opsiwn a ffeirir ar gyfer y Fframwaith

4. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y dewis a ffeirir o ran y Fframwaith rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2018. Yn hytrach nag ymgynghori ar fersiwn ddrafft o'r Fframwaith, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar weledigaeth, amcanion a'r opsiwn a ffeirir er mwyn creu sylfaen ar gyfer datblygu'r Fframwaith drafft.

5. Bu'r Pwyllgor yn craffu ar y dewis a ffeirir ym mis Mehefin 2018. Roedd hyn yn cynnwys sesiwn tystiolaeth gyhoeddus gydag arbenigwyr cynllunio a gweithdy i randdeiliaid. Yn dilyn y gwaith hwn, ysgrifennodd y Pwyllgor at Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar y pryd, ym mis Awst 2018, yn ceisio eglurhad ar amrywiaeth o faterion.

Ein dull o weithredu

6. Ystyriodd y Pwyllgor gyflwyniadau ysgrifenedig a bu'n gwranddo ar dystiolaeth lafar gan randdeiliaid yn ystod ei gyfarfodydd ar 24 Hydref, 6 Tachwedd ac 14 Tachwedd.

Cynghorydd arbenigol allanol

7. Penderfynodd y Pwyllgor benodi cynghorydd arbenigol allanol, Dr Graeme Purves OBE,¹ i'w gynorthwyo gyda'i waith craffu ar y Fframwaith drafft.

8. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn i Graeme Purves am ei gymorth, a fu'n amhrisiadwy wrth lywio trafodaethau a chasgliadau'r Pwyllgor.

¹ Arferai Graeme Purves fod yn Brif Gynllunydd Cynorthwyol gyda Llywodraeth yr Alban. Ef a arweiniodd y timau a fu'n paratoi Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol cyntaf yr Alban, a hefyd ail Fframwaith yr Alban. Mae'n aelod o Gomisiwn UK2070 sydd ar hyn o bryd yn cynnal ymchwiliad i anghydraddoldebau gofodol ledled y DU. Mae hefyd yn Gyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Goffa Syr Patrick Geddes ac yn aelod o Bwyllgor Cynghori'r Alban y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar.

Cynllun Cymrodoriaeth Academaidd Ymchwil y Senedd

9. Comisiynwyd Ludi Simpson, Athro Astudiaethau Poblogaeth, Prifysgol Manceinion, o dan y Cynllun Cymrodoriaeth i baratoi briff ar gyfer y Pwyllgor. Roedd y briff, “Amcanestyniadau demograffig a chynllunio – partneriaeth gydweithredol”,² yn adolygu’r amcangyfrifon o’r angen am dai yng Nghymru a’r modd y cânt eu defnyddio yn y Fframwaith drafft. Mae’r Pwyllgor yn ddiolchgar i Ludi Simpson am ei gymorth.

² <https://seneddymchwil.blog/2019/11/22/cyhoeddiad-newydd-amcanestyniadau-demograffig-a-chynllunio-partneriaeth-gydweithredol/>

2. Argymhelliad

10. Ymgwymerodd y Pwyllgor â'i waith ochr yn ochr ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Fframwaith drafft. O ystyried yr amser sydd ar gael, nid yw'r adroddiad yn trafod pob polisi yn y Fframwaith drafft nac yn atgynhyrchu'n fanwl y dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i gefnogi pob casgliad. Mae hyperlincs i drawsgrifiadau o gyfarfodydd, y dystiolaeth ysgrifenedig a'r papurau briffio a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar ei wefan³.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei hymateb i'r adroddiad hwn ochr yn ochr â'r fersiwn nesaf o'r Fframwaith pan ddaw gerbron y Cynulliad i graffu arni yn 2020.

Dylai ei hymateb fynd i'r afael â phob un o gasgliadau'r Pwyllgor. Lle mae casgliad wedi awgrymu diwygiad i'r Fframwaith drafft, dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw wedi cael ei ymgorffori neu ei adlewyrchu yn y Fframwaith terfynol a sut y gwnaed hynny.

Lle mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu na ddylid ymgorffori nac adlewyrchu casgliad yn y Fframwaith, dylai ddweud pam. Lle mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y byddai'n fwy priodol ymdrin â chasgliad mewn dogfen gynllunio neu ddogfen bolisi arall, dylai gyfeirio at y ddogfen benodol honno.

³ www.assembly.wales/cy/bus-home/committees/Pages/Committee-Profile.aspx?cid=444

3. Dyheadau a chanlyniadau

- 11.** Bydd y Fframwaith yn cynnwys cynllun ar gyfer defnyddio tir am gyfnod o ugain mlynedd, a chaiff ei adolygu bob pum mlynedd o leiaf. Bydd yn nodi polisiau Llywodraeth Cymru ar ddatblygu a defnyddio tir mewn cyd-destun gofodol.
- 12.** Yn wahanol i'w ragflaenydd, Cynllun Gofodol Cymru, bydd gan y Fframwaith statws cynllun datblygu. Mae hyn yn golygu y bydd angen gwneud penderfyniadau cynllunio yn unol â'r Fframwaith a bod yn rhaid i Cynlluniau Datblygu Strategol⁴ a Chynlluniau Datblygu Lleol gydymffurfio ag ef.
- 13.** Mynegodd sawl un a gyfrannodd at waith y Pwyllgor siom nad oedd y Fframwaith drafft yn ddigon uchelgeisiol. Mynegodd eraill bryderon ynghylch dull anghyson o weithredu yn y Fframwaith drwyddo draw.
- 14.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r bwriad i ystyried y Fframwaith a Pholisi Cynllunio Cymru yn ddogfennau sy'n ategu ei gilydd. Serch hynny, mynegodd rhanddeiliaid bryder nad oedd bob amser yn amlwg pam yr oedd rhai materion wedi eu cynnwys yn y Fframwaith, yn enwedig o ystyried nad oedd ganddynt ddimensiwn gofodol. Mynegodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru bryder nad oedd y Fframwaith drafft yn cynnwys fframwaith polisi ar gyfer nifer o ddefnyddiau tir, gan gynnwys manwerthu, hamdden, mwynau, twristiaeth, a seilwaith cyffredinol. Cydnabu fod strategaethau cenedlaethol ar gyfer rhai o'r materion hyn ar gael mewn dogfennau eraill, ond awgrymodd mai pwrpas y Fframwaith yw rhoi cyd-destun gofodol i faterion o bwysigrwydd cenedlaethol. Rhybuddiodd y byddai'r materion hyn, heb y cyd-destun gofodol hwnnw, yn parhau i fod yn agored i'w dehongli ar lefelau is ac efallai na fyddant yn cyflawni amcanion cenedlaethol yn y pen draw.
- 15.** Roedd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (RTPI Cymru) o'r farn bod y Fframwaith drafft yn anghyson yn ei ddull gofodol. Dywedodd ei fod yn ofodol yn unig ar gyfer rhai pynciau, megis ardaloedd twf, ynni gwynt ar dir ac ynni solar, rhwydweithiau gwres rhanbarthol ac ati. Fodd bynnag, nid oedd yn gweithredu mewn modd gofodol yn achos polisiau sy'n ymddangos yn briodol, megis Parthau Gweithredu ar Ffonau Symudol, gwella bioamrywiaeth a'r goedwig genedlaethol. Ategwyd hyn gan RSPB Cymru, a ddywedodd fod dull y Fframwaith o ymdrin â'r strategaeth ofodol yn edrych braidd yn anghytbwys.

⁴ yn cael eu trafod ymhellach ym Mhennod 4.

16. Mynegodd tystion y farn y byddai'r agweddau gofodol ar yr heriau a'r cyfleoedd yn gliriach pe byddai rhywfaint o'r dystiolaeth sydd ar gael yn cael ei mapio. Roedd sawl tyst o'r farn bod llawer o gynnwys polisi Pennod 4 ar ôl diagram y Strategaeth Ofodol ar dudalen 25 yn cynnwys datganiadau am egwyddorion cyffredinol polisïau nad ydynt yn ofodol eu natur.

17. Dywedodd Dr Neil Harris, er bod rhai rhanddeiliaid wedi gwneud sylwadau am y diffyg manylder canfyddedig yn y Fframwaith drafft, y dylai ganolbwyntio ar faterion allweddol o arwyddocâd cenedlaethol, ac y dylid ymwrthod â galwadau am gynnwys rhagor o fanylion. Fodd bynnag, awgrymodd fod lle hefyd i gwtogi ar gynnwys y Fframwaith os yw'r deunydd wedi'i drafod yn ddigonol ym Mholisi Cynllunio Cymru ac os mai ychydig iawn o werth sy'n cael ei ychwanegu trwy ei gynnwys yn y Fframwaith.

18. Dywedodd RSPB Cymru y dylid darllen y Fframwaith drafft law yn llaw â Pholisi Cynllunio Cymru.⁵ Fodd bynnag, dywedodd hefyd fod y ddau yn cynnwys polisïau "Cymru gyfan" a bod angen rhesymeg gliriach ar draws y ddau pa bolisïau ddylai fod yn y Fframwaith a pha rai ddylai fod ym Mholisi Cynllunio Cymru yn unig. Dywedodd:

"In our view, there are significant gaps in the NDF including the absence of policies for nationally important landscape and biodiversity assets which are found in PPW but not in the NDF."

Cysylltiadau gofodol a thrawsffiniol ehangach y DU

19. Teimlai rhai tystion y dylai'r Fframwaith drafft roi rhagor o wybodaeth am gyd-destun ehangach perthnasoedd a chysylltiadau gofodol yn y DU a chydag Iwerddon, ac yn enwedig ar faterion gofodol ar y ffin â Lloegr.

20. Mae'r Fframwaith drafft yn cydnabod y cysylltiadau cymdeithasol, economaidd a sefydliadol pwysig ar draws ffin Cymru-Lloegr, a phwysigrwydd y cysylltiadau masnach a fferi ag Iwerddon. Cyfeiriodd RTPI Cymru at gydweithredu trawsffiniol a dywedodd:

"We welcome that the NDF recognises that there are spatial issues in England that require a response and long term plan from Wales...For example growth in Bristol and the approach to managing this, along with the scrapping of tolls on the Severn crossings all have a significant

⁵ Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisïau cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac yn darparu'r cyd-destun ar gyfer cynllunio'r defnydd o dir.

impact on South East Wales in terms of housing, transport and congestion issues.”

Canlyniadau

- 21.** Roedd y rhai a gyfrannodd at waith y Pwyllgor o blaid cynnwys canlyniadau, mewn egwyddor, ond mynegodd rhai bryder ynghylch y manylion. Credai Dr Neil Harris fod y canlyniadau weithiau'n cael eu mynegi'n gyffredinol iawn ac y byddai, felly, yn anodd monitro'r cynnydd a wneir tuag at eu cyflawni.
- 22.** Roedd Savills o'r farn bod y canlyniadau, ar y cyfan, yn gyraeddadwy os braidd yn anuchelgeisiol. Esboniodd fod y canlyniadau'n dangos ffocws y Fframwaith ar Gymru fel lle i'w phoblogaeth bresennol fyw heb braidd ddim cyfeiriad, os o gwbl, at ei chyd-destun nac at berthnasoedd a chyfleoedd allanol.
- 23.** Credai Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru fod y canlyniadau'n ganmoladwy ar y cyfan ond roedd yn cwestiynu'r gallu i'w cyflawni, yn enwedig gan eu bod yn anghyson mewn manau. Awgrymodd fod sawl canlyniad wedi'i anelu at gefnogi twf, tra bod eraill wedi eu hanelu at amddiffyn a gwella adnoddau naturiol a'r amgylchedd. Gallai'r tensiwn hwn fod yn broblem:
- “As written the objectives seek economic development and increased affordable housing whilst reclaiming lost biodiversity and protecting greenfield land. The NDF is silent on how these conflicts are to be resolved. To ensure that the economic and social elements of sustainable development are delivered through land use planning, it is essential to balance all sustainability objectives.”
- 24.** Mynegodd Savills y farn nad yw'r canlyniadau'n rhoi digon o bwyslais ar yr economi a bod angen pwrpas economaidd sylweddol i ddarparu fframwaith digonol ar gyfer datblygu cynaliadwy.
- 25.** Cyfeiriodd RSPB Cymru at “ddatgysylltiad” mewn perthynas â pholisïau newid yn yr hinsawdd. Fel enghraifft, dywedodd:

“the climate change outcome refers to energy, transport, health and jobs but not to housing; while the outcome for homes and housing makes no reference to climate change and the types of buildings that we need to build - i.e. low or zero-carbon - to get to net-zero.”

Y Gymraeg

26. Mynegodd Rheolwr Polisi Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion bryder ynghylch y prinder cynigion manwl ar lefel genedlaethol/gyffredinol yn ymwneud â bodloni ymrwymïadau'r Llywodraeth i amddiffyn a hybu'r Gymraeg trwy gynllunio.

Rhyngweithio â pholisïau eraill

27. Cyfeirir at y Fframwaith yng nghynllun gweithredu economaidd Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb, fel cynllun datblygu strategol arweiniol ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf. Mae'r cyflwyniad i'r Fframwaith drafft yn nodi iddo gael ei lywio gan Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru, y Strategaeth Drafnidiaeth a Chynllun Carbon Isel Cymru. Mae hefyd yn dweud y bydd y strategaeth ofodol a nodir yn y Fframwaith yn llywio Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Nid oes cyfeiriad yn y Fframwaith drafft at ddull yr "economi sylfaenol" a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

28. Pwysleisiodd cyfranwyr yr angen am sicrhau bod cysylltiadau clir a dealladwy rhwng y Fframwaith drafft a pholisïau perthnasol eraill Llywodraeth Cymru. Ystyriwyd bod y cysylltiad â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn arbennig o bwysig. Dywedodd RTPI Cymru:

"It is vital that the NDF explicitly links to the Wales Infrastructure Investment Plan and other Government policy which have spatial implications."

29. Dywedodd Rheolwr Polisi Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion wrth y Pwyllgor fod angen rhagor o fanylion am y berthynas rhwng y Fframwaith a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru, er mwyn sicrhau cynllunio cadarnhaol a strategol ar gyfer yr amgylchedd arfordirol/yr economi/y gymuned. Byddai hyn hefyd yn gymwys i'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a'r Bil Seilwaith [cydsynio] sydd ar y gweill.⁶

30. Credai Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol nad oedd yn glir beth oedd y cysylltiad rhwng y canlyniadau yn y Fframwaith drafft a Chanlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Polisi Cynllunio Cymru. Fel RTPI Cymru, roedd yn awgrymu bod angen grid neu fatrics i ddangos y berthynas rhwng y ddwy set o ganlyniadau a pholisïau eraill.

31. Awgrymodd RTPI Cymru y byddai tabl sy'n dangos y cysylltiadau a'r berthynas rhwng y cynlluniau perthnasol, megis y Cynlluniau Datblygu Strategol

⁶ Rhagor o wybodaeth am y broses cydsynio seilwaith newydd arfaethedig:
<https://seneddymchwil.blog/2018/06/07/proses-cydsynio-seilwaith-newydd-i-gymru/>

a'r Cynlluniau Datblygu Lleol, yn rhoi eglurder i'r holl randdeiliaid ac yn helpu i ymwneud â'r sectorau a'r rhanddeiliaid pwysig hynny sydd y tu allan i faes cynllunio.

Sylfaen dystiolaeth

32. Cwestiynodd sawl cyfrannwr y sylfaen dystiolaeth ar gyfer polisiau yn y Fframwaith drafft. Dywedodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru wrth y Pwyllgor fod system y cynllun datblygu yng Nghymru yn dibynnu ar sylfaen dystiolaeth i ddangos a yw'r cynigion yn hyfyw ac a oes modd eu cyflawni. Rhybuddiodd y gallai diffyg gofyniad o'r fath ar gyfer y Fframwaith fod yn broblem:

“The NDF is setting outcomes that SDPs and LDPs will need to conform to and prove through examination that they are deliverable, based on robust evidence. This could lead to conflict in SDPs and LDPs that could seriously hamper development plan preparation and undermine the plan-led system.”

Fframwaith monitro

33. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Dr Neil Harris nad yw Llywodraeth Cymru wedi dangos sut y bydd y Fframwaith yn cael ei fonitro a bod canlyniadau'n cael eu mynegi mewn termau mor gyffredinol nes y gallai fod yn anodd monitro unrhyw gynnydd a wneir. Cefnogwyd y farn hon gan Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, a ddywedodd:

“The NDF should include a monitoring framework in the same way as LDPs to assess its effectiveness and delivery against its objectives.”

34. Mae'r adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig hefyd yn cynnig fframwaith drafft i fonitro effaith y Fframwaith terfynol. Nid yw'r dangosyddion sydd i'w monitro wedi eu cadarnhau eto, a bydd y fframwaith yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr ag adroddiad terfynol y Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig.

Casgliadau

Casgliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio canlyniadau'r Fframwaith i gyfleu gweledigaeth hirdymor mwy beiddgar. Mae angen datblygu dimensiwn cenedlaethol y strategaeth yn llawnach.

Casgliad 2. Dylai'r Fframwaith ddefnyddio set o egwyddorion clir ar gyfer datblygu cynaliadwy, sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, i fod yn sail i ganllawiau ar nodi lleoliadau priodol ar gyfer twf a datblygiad.

Casgliad 3. Mae lle i archwilio a chyflwyno'n well oblygiadau'r heriau a'r cyfleoedd a nodwyd ar gyfer pob ardal yng Nghymru. Ar gyfer pob ardal, dylai'r Fframwaith fapio'r dimensiynau demograffig, economaidd ac amgylcheddol ac ar gyfer y Gymraeg

Casgliad 4. Mae angen rhesymeg gliriach dros ddyrannu polisiau rhwng y Fframwaith a Pholisi Cynllunio Cymru. Dylai polisiau nad ydynt yn rhai gofodol gael eu cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru. Pan fydd polisi cenedlaethol wedi'i gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru, ac nid yn y Fframwaith, dylai'r Fframwaith gyfeirio at y polisi hwnnw.

Casgliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi matrices neu grid sy'n nodi ac yn croesgyfeirio'r berthynas rhwng y Fframwaith a pholisiau eraill yn glir.

Casgliad 6. Dylai'r asesiad o heriau a chyfleoedd yn y Fframwaith osod Cymru yn ei chyd-destun geowleidyddol ehangach a mynd i'r afael â'i pherthnasoedd allanol. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu dulliau o annog cydweithredu trawsffiniol ar faterion cynllunio gofodol sydd o ddiddordeb i'r naill a'r llall.

Casgliad 7. Rydym yn siomedig nad oes digon o aliniad a chydgyfnewidioldeb rhwng y Fframwaith, y Strategaeth Drafnidiaeth, Cynllun Carbon Isel Cymru, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd egluro sut y bydd y Fframwaith yn cefnogi'r economi sylfaenol.

Casgliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru wneud datganiad ynghylch sut y bydd y polisiau yn y Fframwaith yn cyfrannu at ei huchelgais i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Casgliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y dylid monitro'r Fframwaith.

4. Strategaeth

35. Cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (y Ddeddf Gynllunio) ddwy lefel newydd o gynllun datblygu, a fydd uwchlaw'r Cynlluniau Datblygu Lleol presennol:

- Fframwaith sy'n cwmpasu Cymru gyfan; a
- Chynlluniau Datblygu Strategol sy'n cwmpasu rhanbarthau penodol.

Y tri rhanbarth

36. Achosodd y cynnig i rannu Cymru yn dri rhanbarth gryn bryder i lawer o randdeiliaid. Dywedodd Savills na chafwyd unrhyw esboniad pam y bwriedir gweithredu yn y fath fodd. Dywedodd fod y diffiniad o'r rhanbarthau yn fras iawn ac nad ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu'r ddaearyddiaeth, y cyd-destun, y cyfleoedd na'r heriau y mae angen mynd i'r afael â hwy yng Nghymru i lywio'r Strategaeth Ofodol.

37. Dywedodd Dr Neil Harris fod y rhanbarthau yn seiliedig ar y rhanbarthau economaidd presennol. Awgrymodd fel a ganlyn:

“This is unusual in a NDF in the context of the declaration of Climate Emergency, given that it appears to prioritise economic considerations over any other thematic area. There is administrative expediency in using economic regions in the NDF, yet the risk is that the regions do not make sense for the very wide range of issues that collectively come together for planning and development purposes.”

38. Roedd Rheolwr Polisi Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion yn anghytuno'n sylfaenol â'r ffaith bod y Fframwaith yn rhannu Cymru yn dri rhanbarth, nid pedwar. Dywedodd:

“I cannot overstate the importance of the previously made case for Mid Wales to be recognised as a discrete region with distinct characteristics that are very different from those of South West Wales.

Tying the future of Mid Wales into the economic ambition of the Swansea City Deal would confound the emergence of an independent voice for a very different and transformational economic agenda founded on the Mid Wales Growth Deal and the qualities of Mid Wales.”

Cynlluniau Datblygu Strategol

39. Cynlluniau rhanbarthol yw'r Cynlluniau Datblygu Strategol. Byddant yn pontio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynlluniau Datblygu Lleol mewn rhai rhannau o Gymru, a byddant yn ymdrin â materion nad ydynt o arwyddocâd cenedlaethol ond sy'n effeithio ar fwy nag un ardal Awdurdod Cynllunio Lleol. Ar hyn o bryd nid oes dyletswydd statudol i lunio Cynlluniau Datblygu Strategol.

40. Cydnabuwyd y bydd y Fframwaith yn dibynnu'n fawr ar y Cynlluniau Datblygu Strategol i sicrhau canlyniadau. Esboniodd Dr Neil Harris fod y Fframwaith yn canolbwyntio'n benodol ar osod y sefyllfa ac amlinellu'r disgwyliadau ar gyfer y Cynlluniau Datblygu Strategol. Dywedodd: "The NDF operates broadly within a subsidiarity principle, and so only deals with key planning and development issues of national importance". Fodd bynnag, dywedodd Dr Neil Harris hefyd:

"there is a stronger focus in the NDF on steering the three regions and their SDPs than there is on national-scale spatial planning and development issues. Work on SDPs is only just starting and is in the very early stages of scoping out how and when they will be prepared."

41. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Cynllun Datblygu Strategol cyntaf, ar gyfer de-ddwyrain Cymru, yng nghramau cynnar iawn ei ddatblygiad a'i bod yn annhebygol y byddai'n cael ei fabwysiadu cyn 2025. Mynegodd rhanddeiliaid ansicrwydd ynghylch sut y gellir gwneud cynnydd o ran cyflawni amcanion y Fframwaith yn y cyfamser. Rhybuddiodd y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi fel a ganlyn:

"Currently no SDPs have commenced in Wales following the Planning Wales Act in 2015 leaving an evidence void. There is also currently no guarantee or requirement for SDPs to be commenced or adopted. The most advanced SDP is the SE Wales proposal which recently issued a draft timeline suggesting adoption in 2025. This raises the question of what happens in the period between the NDF being adopted in 2020 and an SDP which at earliest would be 2025."

42. Dywedodd Innogy Renewables UK fod angen mwy o eglurder ynghylch sut y byddai'r Fframwaith, y Cynlluniau Datblygu Strategol a'r Cynlluniau Datblygu Lleol yn gweithio gyda'i gilydd, yn enwedig o ran y broses o wneud penderfyniadau cynllunio. Awgrymodd y dylai'r Fframwaith egluro na all awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu Cynlluniau Datblygu Strategol na Chynlluniau Datblygu Lleol a / neu ganllawiau atodol sy'n gwrthdweud y Fframwaith, er enghraifft trwy

astudiaethau o gapasiti'r dirwedd ac astudiaethau sensitifrwydd sydd fel rheol yn cyfyngu ar ddatblygiad. Heb yr ymrwymiad clir hwn, mae risg y gallai'r Fframwaith gael ei wanhau gam wrth gam drwy'r hierarchaeth o gynlluniau a chyfyngu ar weithredu prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr.

43. Credai Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol y dylai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru aros y tu allan i Gynlluniau Datblygu Strategol. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu y byddai angen rhoi pwyslais ar y Fframwaith i osod fframwaith priodol ar gyfer datblygu o fewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

44. Mae'r Fframwaith drafft yn cyfeirio at bwysigrwydd y berthynas rhwng Cynlluniau Datblygu Strategol, Cynlluniau Datblygu Economaidd Rhanbarthol Llywodraeth Cymru a'r bargeinion dinas-ranbarth. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi nad oes cynlluniau datblygu economaidd rhanbarthol wedi'u cyhoeddi hyd yma.

Ardaloedd Twf

45. Mae'r strategaeth yn nodi tair "Ardal Twf Cenedlaethol",⁷ lle y bwriedir i'r rhan fwyaf o'r twf newydd ar raddfa fawr ym maes cyflogaeth a thai ddigwydd. Cyfeirir hefyd at "Ardaloedd Twf Rhanbarthol" sy'n llai o faint, a hefyd at gysylltiadau rhyng-drefol, rhanbarthol a rhyngwladol. Mae'r Strategaeth Ofodol yn cynnwys polisiau ar gyfer materion o bwysigrwydd cenedlaethol, gan gynnwys ynni adnewyddadwy, tai fforddiadwy, cyfathrebu symudol, rhwydweithiau ecolegol a seilwaith gwefru ar gyfer cerbydau trydan.

46. Ffocws y newid a'r twf yn y strategaeth yw'r ardaloedd trefol presennol, yn enwedig y dinasoedd a'r trefi mawr. Mae'n ymddangos fod cynaliadwyedd yn y Fframwaith yn cyfateb i batrymau cryno, defnydd cymysg, o ddatblygu trefol a gefnogir gan rwydweithiau Metro neu fath arall o seilwaith trafndiaeth gyhoeddus. Esboniodd Dr Neil Harris fel a ganlyn:

"The NDF essentially establishes a spatial framework for the concentration of growth in identified urban areas – cities and large towns – and sustainable growth to sustain settlements and meet local needs in other locations as a way of providing stability. Growth in rural areas and smaller settlements will be 'appropriate' or 'proportionate' to meet the needs of those living there. In summary, the strategy is one of urban-focused growth and stability elsewhere."

⁷ Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd; Bae Abertawe a Llanelli; a Wrecsam a Glannau Dyfrdwy.

47. Dywedodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru ei bod yn aneglur a yw'r Fframwaith wedi cael ei llywio gan unrhyw astudiaethau o gapasiti trefol i benderfynu a oes safleoedd addas ar gael ar gyfer cyfleusterau o'r fath yng nghanol trefi / dinasoedd Cymru. Roedd yn cwestiynu a ellid cyflawni'r dyheadau yn y Fframwaith yn ymarferol, o ystyried y prinder safleoedd gwag neu safleoedd sydd ar gael yn yr aneddiadau trefol presennol:

“The planning system should deliver sustainable development in locations that represent the best compromise between the competing sustainability objectives and this is what the NDF should be stating rather than dictating where such developments should only be located.”

48. Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi, a ddywedodd:

“The concentration of new development in existing urban areas and, in particular, Newport, is not supported by a robust evidence base, nor do capacity assessments point to this as a suitable proposition. Newport is heavily constrained because of flood risk and the capacity of nearby road infrastructure, including the M4.”

49. Dywedodd Savills mai ychydig iawn o esboniad a gafwyd am yr effaith a ddisgwylir yn sgil canolbwyntio'r twf ar nifer mor gyfyngedig o ardaloedd a beth fyddai hyn yn ei olygu yn ymarferol.

50. Yn yr un modd, dywedodd y Rheolwr Polisi Cynllunio o Geredigion nad oedd yr Fframwaith yn ystyried y canlyniadau tebygol ar ardaloedd yn ymyl yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol. Gallai'r ffocws ar y tair ardal arwain at ddwysáu yn hytrach na gwella anghydraddoldebau gofodol presennol, er enghraifft o ran diboblogi / demograffeg fwyfwy anghyfartal, cyfleoedd economaidd, iechyd a chyfleoedd addysgol.

Cymru Wledig

51. Yn achos cefn gwlad Cymru, mae'r pwyslais yn y Fframwaith drafft ar gefnogi cymunedau, cynnal a gwella mynediad at wasanaethau, a diogelu tir ar gyfer cynhyrchu bwyd. Ni wneir unrhyw ymdrech i nodi model amgen ar gyfer datblygu cynaliadwy a datgarboneiddio sy'n berthnasol i ardaloedd gwledig.

52. Credai'r Rheolwr Polisi Cynllunio o Geredigion fod y Fframwaith mewn perygl o gollu cyfle i ystyried dyfodol cadarnhaol i gefn gwlad Cymru. Eglurodd:

“there is a paucity of policy within the Mid and West Wales region to encourage the appropriate economic growth, improved transport and ecological connectivity of Mid Wales, founded on the area’s quality environment and recognising the need for investment and the strategic opportunities that this plan should be identifying.”

Tir y sector cyhoeddus

53. Mae Polisi 3 y Fframwaith drafft yn nodi y bydd daliadau tir y sector cyhoeddus yn helpu i greu lleoedd cynaliadwy, ac y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau y caiff datblygiadau newydd o faint sylweddol eu lleoli yng nghanol trefi a dinasoedd y gellir eu cyrraedd ar droed, ar feic neu ar drafnidiaeth gyhoeddus.

54. Mae’r testun ategol yn nodi “Lle y gallai tir cyhoeddus helpu i greu lleoedd cynaliadwy, dylid rhoi ystyriaeth gadarnhaol i’r defnydd a wneir o’r tir hwn yn y dyfodol a ph’un a allai, er enghraifft, gynnal datblygiadau defnydd cymysg newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy a gweithgareddau masnachol newydd, neu seilwaith trafniadaeth”.

55. Roedd sawl tyst yn pryderu ynghylch y graddau yr oedd y strategaeth yn dibynnu ar dir cyhoeddus. Roedd rhai yn amau a oedd digon o dir cyhoeddus ar gael yn y lleoedd iawn i ddarparu tai fforddiadwy ar y raddfa a ragwelir. Yn ôl Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru:

“It is considered that there is not a significant amount of Council owned land available in Wales for development, particularly in town centre locations.”

56. Esboniodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru hefyd fod yr incwm drwy werthu tir awdurdodau lleol eisoes yn cael ei ddefnyddio i gyflawni amcanion strategol eraill fel rhaglen ysgolion yr 21ain Ganrif. Dywedodd:

“Welsh Government need to support Councils financially to deliver this agenda if land receipts are going to be reduced to support other policy initiatives. “

Aneddiadau newydd

57. Mae’n ymddangos bod y strategaeth ofodol yn y Fframwaith drafft yn diystyru creu trefi newydd. Tynnodd y rhai a gyfrannodd at waith y Pwyllgor sylw at y ffaith bod Polisi Cynllunio Cymru, i’r gwrthwyneb, yn darparu ar gyfer datblygu aneddiadau newydd lle byddai datblygiad o’r fath yn cynnig mwy o fanteision

amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd nag ehangu neu adfywio aneddiadau presennol ymhellach.

58. Cwestiynodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru'r gwrthddywediad ymddangosiadol hwn gan ddweud:

“It is quite feasible that the most sustainable form of development could be a new settlement outside existing settlements rather than increasing development in settlements where infrastructure and quality of life are already challenged.”

59. Ategwyd hyn gan y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai, a ddywedodd:

“Whilst PPW10 supports the potential for the development of new settlements in Wales, the NDF contradicts these ambitions by suggesting that ‘Choosing to develop new towns and enabling sprawling greenfield development would be to ignore the untapped potential of places which already have town centres, universities and colleges, public transport infrastructure and a good range of public services.’”

Prifysgolion

60. Mae'r Fframwaith drafft yn cydnabod bod ymchwil a datblygu yn allweddol o ran ysgogi cystadleuaeth a chyfle, ac mae'n tynnu sylw at rolau arwyddocaol y prifysgolion ym mhob un o'r tri rhanbarth. Credai Savills y dylai'r Fframwaith ddweud mwy am addysg uwch ac ymchwil a datblygu.

61. Mae ail adroddiad Comisiwn UK2070, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, Moving Up the Gears: Seven Priorities for Action, yn tynnu sylw at y ffaith bod prifysgolion y DU mewn sefyllfa dda yn ddaearyddol i gefnogi adnewyddiad strategol yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gan drosi eu pŵer ymchwil uwch yn ddatblygiad.

Casgliadau

Casgliad 10. Dylai'r Fframwaith fabwysiadu'r model pedwar rhanbarth a argymhellir gan Brifysgol Caerdydd.

Casgliad 11. Dylai'r Fframwaith gydnabod y cyfleoedd i bobl fyw a gweithio'n gynaliadwy y tu allan i drefi a dinasoedd.

Casgliad 12. Dylai'r Fframwaith bennu strategaeth gadarnhaol ar gyfer adfywiad a datblygu economaidd a chymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru. Dylai'r

strategaeth hon annog twf economaidd priodol, gwell cysylltiadau trafnidiaeth a chysylltedd ecolegol.

Casgliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd y strategaeth yn y Fframwaith yn cael ei rhoi ar waith cyn i Gynlluniau Datblygu Strategol gael eu mabwysiadu. Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi dangos nad oes ganddynt fawr o ddyhead i ddatblygu Cynlluniau Datblygu Strategol. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y gellir eu cymell i ddatblygu cynlluniau o'r fath.

Casgliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau bod cynllunio strategol cenedlaethol a rhanbarthol a bargeinion dinas-ranbarth yn cael eu cydgysylltu a'u halinio'n briodol. Dylai Llywodraeth Cymru ddatgan pa bryd, yn ôl ei dealltwraeth hi, y bydd cynlluniau Datblygu Economaidd Rhanbarthol yn cael eu cyhoeddi.

Casgliad 15. Dylai'r strategaeth a nodir yn y Fframwaith fod â phwrpas economaidd cliriach.

Casgliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth o'r capasiti i ddatblygu yn y canolfannau trefol presennol a'r tir sy'n eiddo cyhoeddus sydd ar gael i'w ddatblygu ar y raddfa ac yn y lleoliadau sy'n ofynnol i gefnogi strategaeth y Fframwaith.

Casgliad 17. Dylai polisiau sy'n ymwneud ag aneddiadau newydd fod yn gyson rhwng y Fframwaith a Pholisi Cynllunio Cymru.

Casgliad 18. Dylai'r Fframwaith wneud datganiad cliriach am rôl bwysig prifysgolion wrth gefnogi datblygu strategol ac adnewyddu ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol.

5. Datgarboneiddio a Newid yn yr Hinsawdd

- 62.** Roedd cefnogaeth gyffredinol i gynnwys canlyniad yn ymwneud â datgarboneiddio. Cyfeiriodd Renewable UK Cymru at y Fframwaith fel cyfle sy'n diffinio cenedlaeth i roi fframwaith cynllunio newydd ar waith a all ddatgloi potensial Cymru i gwrdd â heriau'r argyfwng hinsawdd sydd ohoni.
- 63.** Fodd bynnag, nododd sawl cyfrannwr fod y Fframwaith drafft yn canolbwyntio'n drwm ar ddatgarboneiddio ond yn dweud fawr ddim am heriau pwysig eraill sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd.
- 64.** Dywedodd RTPI Cymru, er ei fod yn cefnogi'r canlyniadau sy'n ymwneud â datgarboneiddio, ei fod o'r farn bod y ffocws ar ddatgarboneiddio yn y Fframwaith yn rhy gul; er enghraifft, nid yw'r Fframwaith yn mynd i'r afael yn llawn â risg llifogydd a newid arfordirol o ystyried y bydd effaith sylweddol ar rai aneddiadau wrth i lefelau'r môr godi yn y dyfodol. Tynnodd RSPB Cymru sylw at y ffaith bod Canlyniad 11 ar newid yn yr hinsawdd yn cwmpasu ynni, yr economi, trafniadaeth ac iechyd, ond nid tai.
- 65.** Cefnogodd Innogy Renewables UK gydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru bod "ynni adnewyddadwy yn rhan allweddol o'n hymrwymiad i ddatgarboneiddio a mynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd". Roedd hefyd yn croesawu cynnwys targedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru fel un o ysgogwyr allweddol y Fframwaith, ond rhybuddiodd y byddai angen ailystyried y rhain yng ngoleuni'r datganiad o Argyfwng Hinsawdd a'r dyhead i fod yn "sero-net" erbyn 2050.
- 66.** Croesawodd RSPB Cymru y pwyslais ar newid yn yr hinsawdd ac ar ddirywiad bioamrywiaeth. Fodd bynnag, credai fod bylchau sylweddol yn y modd y gallai'r polisiâu gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Fel enghraifft, awgrymodd y dylai'r Fframwaith ei gwneud yn orfodol bod datblygiad yn cyfrannu at adfer natur. Ychwanegodd nad oedd polisiâu yn y Fframwaith ar gyfer safleoedd o bwys cenedlaethol nac ar gyfer rhywogaethau â blaenoriaeth, a bod yn rhaid cynnwys y rhain.
- 67.** Mae Polisi 7 yn ymrwymiad o blaid cynyddu'r defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn. Mynegodd Cynnal Cymru y farn bod y broses o gyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trydan wedi bod yn siomedig o araf.
- 68.** Rhybuddiodd Innogy Renewables UK, er bod cyfeiriad strategol wedi'i bennu ar gyfer seilwaith gwefru, nad yw'r Fframwaith drafft yn ystyried y seilwaith grid

newydd a / neu wedi'i uwchraddio a fydd ei angen i fedru cyflwyno mannau gwefru.

69. Awgrymodd y dylid diwygio Polisi 7 neu ei destun ategol i gefnogi, mewn egwyddor, y seilwaith grid newydd a / neu well a fydd yn ofynnol mewn rhannau o Gymru er mwyn medru cyflwyno mannau gwefru cerbydau trydan yn effeithiol.

Casgliadau

Casgliad 19. Credwn fod y Fframwaith yn allweddol i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Dylai'r Fframwaith edrych y tu hwnt i ddatgarboneiddio a mynd i'r afael ag agweddau eraill ar newid yn yr hinsawdd megis risg llifogydd, rheoli dŵr a'r goblygiadau ar gyfer cynllunio'r arfordir.

Casgliad 20. Dylai'r canlyniad newid yn yr hinsawdd gwmpasu tai a dylai'r canlyniad ar gyfer cartrefi a thai fynd i'r afael â'r mathau o gartrefi y mae angen i Gymru eu hadeiladu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Casgliad 21. Dylai'r Fframwaith fynegi dimensiwn gofodol ei strategaeth ar gyfer datgarboneiddio trafnidiaeth a gwresogi. Dylai nodi'n gliriach sut y dylid sicrhau llai o ddibyniaeth ar gerbydau preifat mewn ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd.

Casgliad 22. Dylai'r Fframwaith nodi sut y dylid cyflwyno'r seilwaith gwefru cerbydau a'r rhwydweithiau gwres.

6. Tai

70. Mae'r Fframwaith drafft yn cyfeirio ar brinder cartrefi newydd ac yn dweud y dylai darparu cartrefi fforddiadwy fod yn ffocws allweddol ar gyfer darparu tai.

71. Dadleuodd cynrychiolwyr y diwydiant adeiladu tai fod y Fframwaith drafft yn canolbwyntio'n ormodol ar dai fforddiadwy ac yn methu â chydabod rôl bwysig adeiladwyr tai preifat, gan gynnwys busnesau adeiladu bach a chanolig, wrth ddarparu tai yn gyffredinol.

72. Dywedodd y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi y dylai'r Fframwaith drafft gydnabod rôl tai newydd wrth gefnogi twf economaidd, a allai chwarae rhan annatod yn yr ymgyrch i greu cyfleoedd cyflogaeth newydd sy'n gysylltiedig â'r Fargen Ddinesig a'r Fargen Twf. Eglurodd:

“The demographic likely to be employed in the modern high-tech industries that the Welsh Government aims to attract will require appropriate volumes and types of new housing.”

73. Mae'r Fframwaith drafft yn tynnu sylw at yr angen i feddwl am y mathau o gartrefi a lleoedd y bydd eu hangen ar Gymru i ddiwallu anghenion cymdeithas sy'n heneiddio.

Amcangyfrif o'r angen am dai

74. Mae'r Fframwaith drafft yn defnyddio dogfen Llywodraeth Cymru, Amcangyfrifon o'r angen am dai yng Nghymru fesul deiliadaeth (yn seiliedig ar 2018), sy'n cynnwys nifer o wahanol senarios demograffig. Mae'r Fframwaith drafft yn defnyddio'r amcangyfrif canolog sy'n awgrymu:

- bod angen 114,000 o gartrefi ychwanegol ledled Cymru erbyn 2038;
- yn ystod y pum mlynedd gyntaf (2018/19 i 2022/23), bydd angen 8.300 cartref newydd ar gyfartaledd bob blwyddyn, gydag angen am 57% ohonynt yn ne-ddwyrain Cymru, 24% yng nghanolbarth a de-orllewin Cymru a 19% yng ngogledd Cymru; a
- dylai fforddiadwyedd fod yn ganolbwynt allweddol, gyda 47% o gartrefi newydd yn ystod 2018/19 i 2022/23 angen bod yn dai fforddiadwy (tai cymdeithasol neu rent canolradd). Mae hyn yn cynrychioli 3,900 o dai fforddiadwy ar gyfartaledd a 4,400 o gartrefi marchnad yn flynyddol dros y cyfnod o bum mlynedd.

75. Mae'r ddogfen ynghylch yr amcangyfrifon o'r angen am dai yn datgan na ddylid defnyddio'r ffigurau hyn fel targedau tai, ac yn hytrach y dylent fod "sail trafodaeth ar gyfer penderfyniadau polisi".

76. Mynegodd yr Athro Ludi Simpson y farn bod y ffigurau a ddyfynnwyd yn y Fframwaith drafft yn ôl pob tebyg yn tanamcangyfrif yr angen am dai a phwysleisiodd na ddylid eu hystyried yn dargedau.

77. Awgrymodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru y dylid ail-eirio Polisi 5 i nodi y dylai'r Amcangyfrifon Rhanbarthol o'r Angen am Dai fod yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer targedau tai fforddiadwy, yn hytrach na seilio targedau'r Cynllun Datblygu Stategol yn llwyr ar yr amcangyfrifon hyn. Mynegodd y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi bryder hefyd y gallai'r ffigurau gael eu dehongli'n anghywir fel targedau cyflenwi tai, a dywedodd:

"This important distinction was made by the Minister when the figures were released, and we would welcome confirmation and clarification in the NDF."

78. Mae'r Fframwaith drafft yn nodi bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen newid y model cyflenwi i ddarparu cartrefi fforddiadwy ar y raddfa a'r cyflymder sy'n ofynnol a bod yn rhaid i'r sector cyhoeddus arwain y ffordd wrth lunio lleoedd cynaliadwy. Yn ei dystiolaeth, dywedodd yr Athro Ludi Simpson fod yr ymrwymiad ym Mholisi 5 y bydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy a gyflenwir yn debycach i ddyhead na chynllun a bod angen i Lywodraeth Cymru ddangos pa ddulliau a ddefnyddir ganddi i sicrhau bod y targedau'n cael eu cyrraedd.

79. Mynegodd Savills bryder y gallai datgan y dylai 47 y cant o gartrefi newydd rhwng 2018/19 a 2022/23 fod yn fforddiadwy roi galwadau trwm ar y sector cyhoeddus ac atal y sector preifat rhag cyflenwi tai. Eglurodd:

"The draft NDF expects a much more significant number of affordable homes to come from the public sector almost immediately and there are clear practical difficulties in achieving this. This is accompanied by a lower contribution (than is currently being delivered) of other housing from the private sector. We doubt whether it is the intention of the NDF to suppress current performance but this is a realistic scenario based on proposed expectations."

80. Dywedodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru ei bod yn ymddangos bod y Fframwaith drafft yn ddiystyriol braidd o'r rôl sydd gan y sector preifat – yn

benodol adeiladwyr sy'n codi clystyrau mawr o dai – wrth ddarparu Tai Fforddiadwy, sydd wedi bod yn sylweddol yn yr 20 mlynedd diwethaf.

81. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Ffederasiwn Meistr Adeiladwyr Cymru, er bod y Fframwaith drafft yn cyfeirio at gefnogi cwmnïau adeiladu llai mewn ardaloedd gwledig, roedd sawl rhwystr ymarferol o ran y broses a'r mynediad at gyllid a oedd yn ei gwneud yn anodd iddynt ddatblygu ar safleoedd llai.

Casgliadau

Casgliad 23. Dylai'r Fframwaith edrych ar y sector tai yn ei gyfanrwydd a mynd i'r afael â rôl y sector preifat, gan gynnwys busnesau adeiladu bach a chanolig wrth ddarparu tai. Dylai hyn gynnwys safleoedd bach nad ydynt wedi'u cynnwys mewn Cynlluniau Datblygu Lleol.

Casgliad 24. Mae angen i'r Fframwaith nodi'r dulliau i'w defnyddio i ddarparu tai fforddiadwy newydd ar y raddfa a ragwelir yn y strategaeth. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yr "Adolygiad annibynnol o'r cyflenwad o dai fforddiadwy" a gomisiynwyd ganddi, ac a gyflwynodd adroddiad ym mis Mai 2019, yn llywio'r Fframwaith.

Casgliad 25. Dylid diweddarau amcangyfrif y Fframwaith o'r angen am dai yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael.

Casgliad 26. Dylid mynegi unrhyw dargedau ar gyfer tai fforddiadwy fel niferoedd, nid canrannau.

Casgliad 27. Mae angen rhoi sylw arbennig i anghenion tai pobl hŷn. Dylai'r Fframwaith ei hun roi arweiniad cenedlaethol yn hyn o beth.

Casgliad 28. Dylai'r Fframwaith gydnabod pwysigrwydd busnesau adeiladu bach a chanolig wrth ddarparu tai yng nghefn gwlad Cymru ac archwilio'r potensial i gael gwared ar rwystrau i adeiladu datblygiadau tai bach sy'n cynnwys llai na 10 uned.

Casgliad 29. Mae'r Pwyllgor yn siomedig gyda'r diffyg cynnydd parhaus o ran diwygio Rhan L (Arbed tanwydd ac ynni) o'r rheoliadau adeiladu. Dylai Llywodraeth Cymru ddatgan beth yw ei hamserlen ar gyfer diwygio Rhan L.

7. Seilwaith a chysylltedd

82. Credai sawl cyfrannwr fod angen i'r Fframwaith nodi prosiectau seilwaith penodol i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd y mae'n eu hamlinellu.

83. Mae'r cyflwyniad i'r Fframwaith drafft yn nodi ei fod yn rhoi cyfeiriad ar "ble y dylem fod yn buddsoddi mewn seilwaith". Yn ei dystiolaeth, tynnodd Innogy Renewables UK sylw at y ffaith bod y cynigion ar gyfer cyfundrefn newydd o gynllunio seilwaith yng Nghymru yn nodi y bydd penderfyniadau ar ddatblygiadau ar raddfa o bwys cenedlaethol yn cael eu gwneud yn unol â'r Fframwaith. Fodd bynnag, datblygiadau ynni adnewyddadwy mawr yw'r unig elfennau o seilwaith y mae'r ddogfen ddrafft yn darparu arweiniad gofodol arnynt. Nid oes polisiâu yn y Fframwaith drafft ar gyfer cydsynio i brosiectau seilwaith mawr eraill, megis seilwaith trafndiaeth, nwy a gwastraff mawr, sydd hefyd ar hyn o bryd yn Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

84. Yn ei dystiolaeth dadleuodd RSPB Cymru y dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o ystyriaeth i rôl y Fframwaith fel fframwaith polisi ar gyfer gwneud penderfyniadau ar bob Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

85. Awgrymodd Innogy Renewables UK y dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt ar brosiectau heb eu datganoli. Nododd fod y Fframwaith drafft yn cyfeirio at bolisiâu niwclear yn unig.

86. Yn ei ail adroddiad, Moving Up the Gears: Seven National Priorities for Action, mae Comisiwn UK2070 yn galw am "chwyldro cysylltedd", i ddarparu gwell cysylltedd rhwng dinasoedd, symudedd aml-foddol cynaliadwy o fewn ardaloedd trefol mawr, a chysylltedd y tu hwnt i ardaloedd trefol ar gyfer cymunedau ymylol mewn ardaloedd arfordirol a gwledig sydd wedi colli trafndiaeth a gwasanaethau lleol. Mae'r cynigion ar gyfer Metros yng Ngogledd Cymru, Bae Abertawe a De Cymru yn amlwg yn cyd-fynd â'r ail o'r amcanion hyn. Mae adroddiad Beyond HS2 yn nodi Caerdydd fel dinas a fyddai'n elwa'n arbennig o strategaeth o gryfhau'r coridorau rheilffyrdd rhwng y dwyrain a'r gorllewin.

87. Croesawodd RTPI Cymru y sylw a roddwyd yn y Fframwaith drafft i wella cysylltedd rhwng de Cymru / de-orllewin Lloegr a gogledd Cymru / gogledd-ddwyrain Lloegr ond mynegodd siom bod y Fframwaith drafft wedi hepgor cyfeiriad at gysylltedd gogledd / de Cymru. Dywedodd:

"The long-term plan should set a strong and clear vision for improving the notoriously poor links between north and south Wales."

- 88.** Ategwyd hyn gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, a ddywedodd fod y Fframwaith drafft yn nodi bod y “cysylltiadau rhwng Gogledd Cymru a De Cymru yn dameidiog ac nid oes modd teithio yn y trêen heb adael y wlad”. Roedd yn cwestiynu'r rhesymeg dros hepgor polisi neu bolisiau o'r Fframwaith i fynd i'r afael â'r broblem hon.
- 89.** Yn ei thystiolaeth tynnodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru sylw at y rôl y gallai polisi cludo nwyddau ei chwarae wrth leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd a'r angen am egluro rôl porthladdoedd Cymru.
- 90.** Tynnodd RSPB Cymru sylw at y ffaith bod yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi nodi bod angen cynnal astudiaethau pellach ynghylch Polisi 20 ar gyfer Porthladd Caergybi.
- 91.** Mae Pennod 2 o'r Fframwaith drafft yn cyfeirio at ddarparu mynediad at fand eang sefydlog gwibgyswllt fel un o'r heriau presennol o ran cysylltedd. Dywed fod gwasanaeth band eang gwibgyswllt yng Nghymru yn dal i fod islaw cyfartaledd y DU.
- 92.** Mae Pennod 4 yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod gan bob rhan o Gymru y seilwaith telathrebu sydd ei angen arni ac y bydd yn pennu Parthau Gweithredu ar Ffonau Symudol, gan ganolbwyntio ar ardaloedd lle nad oes llawer o signal ar hyn o bryd, os o gwbl, a lle mae galw am seilwaith newydd. Yn ei dystiolaeth, cyfeiriodd RTPI Cymru at Ardaloedd Gweithredu ar Ffonau Symudol fel un o'r polisiau y dylid rhoi mynegiant gofodol iddynt yn y Fframwaith.

Casgliadau

Casgliad 30. Dylai'r Fframwaith bennu'r gofynion o ran y seilwaith craidd a dylai ddarparu fframwaith gofodol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer pob math o seilwaith sy'n bwysig yn genedlaethol. Dylai Llywodraeth Cymru bennu ei safbwynt “mewn egwyddor” ar brosiectau a pholisiau seilwaith sydd heb eu datganoli.

Casgliad 31. Dylai'r Fframwaith gynnwys cynigion penodol i fynd i'r afael â materion cysylltedd yng Nghymru yn ychwanegol at y rhai sy'n croesi'r ffin â Lloegr. Dylai hyn gynnwys gwell cysylltedd rhwng trefi a dinasoedd Cymru, rhwng ardaloedd trefol a gwledig a hefyd o fewn ardaloedd gwledig. Dylai'r Fframwaith hefyd adlewyrchu blaenoriaethau Teithio Llesol Llywodraeth Cymru.

Casgliad 32. Mae'r Pwyllgor yn deall bod mwy o alw am gysylltedd trafnidiaeth o'r dwyrain i'r gorllewin yn y prif goridorau yng Ngogledd a De Cymru, ond dylai'r

Fframwaith hefyd fynd i'r afael â'r cysylltedd gwael rhwng Gogledd Cymru a De Cymru.

Casgliad 33. Mae angen rhoi mynegiant gofodol yn y Fframwaith i ymrwymïadau Llywodraeth Cymru ar seilwaith digidol, gan gynnwys Parthau Gweithredu ar Ffonau Symudol. Mae angen datblygu polisiau gofodol ar gyfer porthladdoedd a chludo nwyddau.

8. Ynni

93. Fel y trafodwyd yn gynharach yn yr Adroddiad hwn, mynegodd y rhai a gyfrannodd at waith y Pwyllgor y farn, yng nghyd-destun yr agenda datgarboneiddio a'r argyfwng hinsawdd, bod angen i'r Fframwaith gymryd golwg ehangach a mwy cynhwysfawr ar gyfleoedd a heriau yn y sector ynni.

94. Credai Renewable UK Cymru nad oedd gan y Fframwaith drafft weledigaeth strategol unedig ar gyfer system ynni Cymru yn y dyfodol. Dywedodd:

“A greater balance could have been achieved between proposing specific policy approaches for specific technologies and offering a more coherent view of how the energy system will need to accommodate decarbonising heat and transport.”

95. Credai Savills fod y ffaith nad oedd cyfeiriad yn y ddogfen at faterion y grid yn wendid. Dadleuodd fod yn rhaid i'r berthynas rhwng cynhyrchu ynni a'i ddsbarthu drwy'r Grid Cenedlaethol yng nghyd-destun y DU gael ei chydabod a'i hystyried fel rhan o'r Fframwaith.

96. Roedd sawl tyst o'r farn bod y Fframwaith drafft yn canolbwyntio'n rhy gul ar ddatblygiadau gwynt ar y tir ac ynni solar, ac nad oedd ynddo fawr o sôn am dechnolegau adnewyddadwy eraill na'r seilwaith sydd ei angen ar y tir ar gyfer datblygiadau gwynt yn y môr. Dywedodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru fel a ganlyn:

“The NDF does not consider tidal or offshore generation, both of which could make significant contributions in terms of energy generation, whilst having less landscape impact than large scale onshore developments.”

97. Yn ei dystiolaeth, tynnodd Innogy Renewables UK sylw at y ffaith bod prosiectau ynni adnewyddadwy mawr, sydd bellach wedi'u datganoli i benderfynu arnynt yng Nghymru, wedi cael budd yn y gorffennol o gefnogaeth polisi ddiamwys yn Natganiadau Polisi Cenedlaethol y DU. Mynegodd bryder na fyddai hyn yn digwydd bellach. Dadleuodd Innogy Renewables UK hefyd fod angen polisi cynllunio i fynd i'r afael ag ailbweru ac ymestyn oes datblygiadau ynni adnewyddadwy.

98. Nid yw'r Fframwaith drafft yn cynnwys cyfeiriad at ffynonellau ynni fel nwy ac olew. Mae'n ymddangos bod hyn yn hepgoriad sylweddol, o gofio mai Aberdaugleddau yw'r porthladd ynni mwyaf yn y DU.

Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar

99. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiadau ynni gwynt ac ynni solar ar raddfa fawr yn yr Ardaloedd â Blaenoriaeth y mae wedi eu nodi. Yn ôl y Fframwaith drafft, byddai rhagdybiaeth o blaid datblygu ar gyfer y cynlluniau hyn ac “o ganlyniad, derbynnir egwyddor newid tirwedd”.

100. Nodir yn y Fframwaith drafft y caiff canllawiau eu llunio ar ddatblygu cynlluniau ynni solar ac ynni gwynt ar y tir mewn Ardaloedd â Blaenoriaeth. Ni roddir amserlen ar gyfer datblygu'r canllawiau hyn. Bydd gweithredu datblygiadau yn yr Ardaloedd â Blaenoriaeth yn cael ei fonitro ar sail targedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru.

101. Roedd y tystion o'r diwydiant ynni adnewyddadwy yn beirniadu'n fanwl y fethodoleg a ddefnyddiwyd i bennu'r Ardaloedd â Blaenoriaeth. Roeddent yn dadlau bod rhai o'r ardaloedd lleiaf cyfyngedig wedi'u heithrio o'r Ardaloedd â Blaenoriaeth a bod clustogbarthau rhy gaeth wedi'u pennu o amgylch dynodiadau amgylcheddol ac nad oes sôn am y pellter oddi wrth eiddo preswyl. Roedd cynrychiolwyr y sector o'r farn y bydd y dull Ardal a Ffefrir yn cyfyngu'n ormodol ar gyfleoedd i gynyddu'r capasiti i gynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Esboniodd Innogy Renewables UK fel a ganlyn:

“less than 10% of the Priority Areas for ‘Solar and Wind Energy’ is suitable for onshore wind, and only 5% is ‘available’ once existing wind farms have been excluded. Furthermore, parts of the available areas are only likely to be suitable for <10MW projects that won't fall under the DNS system and won't be assessed against the NDF.”

102. Dywedodd Renewable UK Cymru ei fod wedi dod i gasgliad tebyg yn sgil ei ddadansoddiad.

“the total area of developable (unconstrained) opportunity for the 11 priority areas which relate to onshore wind equates to approximately 5%. In these areas, it is likely that the vast majority of developable opportunities would relate to sites of less than 10MW capacity, and therefore not within the NDF's remit.”

103. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Innogy Renewables UK a Renewable UK fod cadw digon o le rhwng tyrbinau gwynt ac eiddo preswyl presennol yn ystyriaeth bwysig wrth ddiogelu amwynder preswyl ac roedd o'r farn bod methu ag ystyried y pellter o eiddo preswyl yn wendid difrifol yn y fethodoleg a ddefnyddiwyd i bennu Ardaloedd a Ffefrir.

104. Credai Renewable UK Cymru ac Innogy Renewables UK y dylai'r Fframwaith fabwysiadu fframwaith polisi sy'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy.

105. Dywedodd RSPB Cymru ei fod am weld mwy o ynni adnewyddadwy o felinau gwynt ar y tir ac o'r haul fel rhan o ystod o fesurau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Dywedodd hefyd fod angen i ddatblygiad gael ei gynllunio'n strategol a'i leoli mewn lleoedd sydd â risg isel i fywyd gwylt er mwyn osgoi ychwanegu at ddirywiad bioamrywiaeth. Eglurodd:

“The issues raised for biodiversity and ecosystem resilience are very different between solar and onshore wind technologies. The evidence used to derive Priority Areas seems to have been strongly informed by the landscape and visual impact of onshore wind.”

106. Mynegodd RSPB Cymru bryder ei bod yn ymddangos bod geiriad Polisi 10 yn gwanhau'r diogelwch a roddir i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig trwy fynnu bod datblygiad yn lliniaru yn hytrach nag osgoi effeithiau andwyol. Esboniodd fod hyn hefyd yn cymhlethu problem a achosir gan y geiriad a gyflwynwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru (a gyhoeddwyd 5.9.17) a allai, o bosibl, wanhau'r diogelwch a roddir i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Daeth i'r casgliad ei fod wedi cael sicrwydd nad dyna yw bwriad Llywodraeth Cymru ac roedd yn pwysleisio bod angen i eiriad y Fframwaith a Pholisi Cynllunio Cymru gael ei ddiwygio.

Casgliadau

Casgliad 34. Dylai'r Fframwaith bennu gweledigaeth strategol unedig ar gyfer dyfodol ynni yng Nghymru a bod yn glir ynghylch y targedau ar gyfer cynhyrchu trydan a datgarboneiddio y mae Llywodraeth Cymru yn anelu atynt.

Casgliad 35. Dylai'r Fframwaith fod yn gefnogol i dechnolegau adnewyddadwy heblaw gwynt a solar, a mynd i'r afael â storio a'r angen am seilwaith ar y tir ar gyfer ffermydd gwynt yn y môr.

Casgliad 36. Ni ddylai lefel y gefnogaeth yn y Fframwaith ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy fod yn wannach na'r hyn a ddarparwyd eisoes gan Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol y DU. Dylai polisïau ynni adnewyddadwy fynd i'r afael ag ailbweru ac ymestyn oes y datblygiadau presennol.

Casgliad 37. Dylai'r Fframwaith bennu goblygiadau datgarboneiddio gwres a chludiant o ran y galw am drydan a'r system drawsyrro.

Casgliad 38. Dylai'r Fframwaith fynegi gweledigaeth a strategaeth i gefnogi datblygiadau sy'n seiliedig ar ddsbarthu ynni'n lleol.

Casgliad 39. Dylid diwygio Polisi 7 i fynd i'r afael â gofynion y seilwaith grid.

Casgliad 40. Dylai'r Fframwaith fabwysiadu fframwaith polisi sy'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy.

Casgliad 41. Mae datblygiadau ynni gwynt ac ynni solar yn destun cyfyngiadau gwahanol iawn a gallant effeithio mewn ffyrdd gwahanol ar fywyd gwyllt, ac felly dylid mynd i'r afael â hwy drwy gyfrwng polisiau cynllunio ar wahân.

Casgliad 42. Dylai polisiau'r Fframwaith ar ddatblygiadau ynni gwynt ac ynni'r haul roi'r un lefel o ddiogelwch i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ag a roddir i Bolisi Cynllunio Cymru.

Casgliad 43. Dylai'r Fframwaith gydnabod y potensial i sicrhau buddion amgylcheddol a hamdden mewn cysylltiad â datblygiadau ynni adnewyddadwy.

9. Bioamrywiaeth, seilwaith gwyrdd a'r goedwig genedlaethol

107. Mae'r Fframwaith drafft yn cynnwys ymrwymïadau i fframwaith strategol ar gyfer gwella bioamrywiaeth, cefnogaeth i seilwaith gwyrdd strategol a chreu coedwig genedlaethol. Yn gyffredinol, croesawyd y polisiau hyn gan y tystion, er bod rhai o'r farn yn gallent fod yn fwy uchelgeisiol.

108. Gan gyfeirio at Bolisi 8 (Fframwaith strategol ar gyfer gwella bioamrywiaeth a sicrhau bod ecosystemau yn wydn), pwysleisiodd RSPB Cymru y dylai'r Fframwaith gynnwys ymrwymïad clir i sicrhau buddion net i fioamrywiaeth. Mynegodd bryder bod polisi'r Fframwaith, fel y mae wedi'i ysgrifennu, yn wannach na Pholisi Cynllunio Cymru ac yn anghyson ag ef. Awgrymodd:

“A cornerstone for nature’s recovery is safeguarding and achieving favourable condition of our most important wildlife sites. We want to see the inclusion of a protected sites policy covering Natura 2000 sites and SSSIs which is currently absent. As the top tier spatial plan, the NDF should include policies for spatially defined national designations.”

109. Yn y datganiad sy'n cefnogi Polisi 9 (Y goedwig genedlaethol) dywedir bod y goedwig yn debygol o fod ar wasgar ar draws sawl lleoliad, ond ni roddir unrhyw arwydd ble y gallai'r rheini fod. Dywedodd Dr Neil Harris nad yw'r cynnig i greu coedwig genedlaethol i'w weld yn unman ar fap y strategaeth. Ychwanegodd y bydd rhanddeiliaid yn poeni mai dim ond camau cynnar “syniad” yw hwn, ac y gallai fod yn rhy fuan i'w gynnwys yn y Fframwaith oni ellir dweud dim yn ofodol am leoliad y goedwig yn fras. Adleisiodd Savills y sylwadau hynny:

“No information is given even indicatively or on any spatial diagram or plan as to the location or extent of the Forest and caution must be given to the presence of existing resources and available sites in determining its extent and location(s).”

110. Dywedodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru nad yw'r Fframwaith drafft yn egluro sut y bydd Llywodraeth Cymru yn pennu “safleoedd a dulliau cyflawni” i ddarparu'r goedwig genedlaethol. Roedd yn credu bod hyn yn arbennig o bwysig, o ystyried yr uchelgais “i gynyddu'r gorchudd coetir yng Nghymru o leiaf 2,000 hectar y flwyddyn o 2020 ymlaen”, sef y flwyddyn nesaf.

111. Yn ei dystiolaeth, cyfeiriodd yr Athro Dave Chadwick at rôl coed o ran rheoli'r risg o ddŵr a llifogydd a rôl bwysig mawndiroedd fel dalfeydd carbon. Cyfeiriodd

Confor at bwysigrwydd coetiroedd ar lannau afonydd er mwyn cynnal ansawdd dŵr. Dywedodd RSPB Cymru:

“We support the inclusion in the NDF of policies for a National Forest and a Valleys Regional Park. We want to see these policies implemented in ways that also achieve the biodiversity and climate objectives of the plan. For example, the National Forest policy might be used to further the conservation of our globally significant ‘Celtic Rainforests’.”

112. Tynnodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru sylw at y ffaith nad oedd unrhyw gyswllt rhwng seilwaith gwyrdd a darparu cartrefi fforddiadwy.

Lleiniau Glas

113. Cyfeiriodd sawl cyfrannwr at y polisiau lleiniau glas yn y Fframwaith drafft. Cyfeiriodd Savills at y llain las yng ngogledd-ddwyrain Cymru a rhybuddiodd bod angen ystyried y polisi ymhellach. Awgrymodd fod defnyddio llain las yn cael ei ystyried yn gynyddol fel cysyniad sy'n gorfodi dull cyfyngol o gyflawni polisiau cynllunio, ac y gallai hynny lonyddu'r farchnad dai a'i fod yn offeryn rhy swrth a negyddol. Awgrymodd y dull amgen a ganlyn:

“Rather than a Greenbelt, it is proposed that areas of significant green infrastructure, potentially incorporating areas identified for the National Forest (Policy 9) is likely to be a much more useful and constructive approach to “conserving” countryside by placing it in a functional setting rather than a restrictive context.”

114. Fodd bynnag, dywedodd Savills fod y diagram rhanbarthol strategol yn dangos bod yr Ardal Twf Cenedlaethol yn gorgyffwrdd â'r Llain Las ar gyfer gogledd-ddwyrain Cymru. Dywedodd ei bod yn anodd gweld sut y gellir uno'r ddau gysyniad.

115. Disgrifiodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru Bolisi 30 (Lleiniau glas yn ne-ddwyrain Cymru) fel un o'r polisiau mwyaf rhagnodol yn y Fframwaith drafft. Dywedodd nad oedd tystiolaeth na dadansoddiad manwl i gefnogi'r gofynion am leiniau glas, ac ychwanegodd fel a ganlyn:

“Designation of a greenbelt is a major long-term policy decision that should be based on robust evidence.”

116. Adleisiodd y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi hyn, gan ddweud:

“The concept of a green belt has been included without any evidence to support its need or location. The policy also states that it ‘must be’ provided rather than considered. Green belts also differ slightly to many planning policies in that they are permanently protecting an area for 50 years and are very infrequently reviewed. Green belts were established to limit urban growth, yet the two green belts identified in the NDF are both within the areas identified for growth.”

Casgliadau

Casgliad 44. Dylid rhoi mynegiant gofodol yn y Fframwaith i wella bioamrywiaeth, gwytnwch ecosystemau, seilwaith gwyrdd strategol a’r goedwig genedlaethol. Dylai’r Fframwaith nodi sut y dylid cyflawni’r ymrwymadau.

Casgliad 45. Dylid cryfhau Polisi 8 i nodi bod yn “rhaid” amddiffyn bioamrywiaeth yn hytrach nag y “dylid” ei amddiffyn ac y dylai hefyd fynnu bod datblygiad yn cyfrannu at adfer natur.

Casgliad 46. Dylai’r Fframwaith bennu blaenoriaethau gofodol cenedlaethol ar gyfer gwella bioamrywiaeth. Mae angen ymgorffori’r gofyniad am y mesurau lliniaru a nodwyd gan yr Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd yn y Fframwaith. Dylai’r rhwydwaith ecolegol cenedlaethol fynd i’r afael ag anghenion rhywogaethau â blaenoriaeth.

Casgliad 47. Dylai datblygiad y goedwig genedlaethol ystyried rôl bosibl plannu coed o ran rheoli risg dŵr a llifogydd yn ogystal â chynhyrchu bwyd-amaeth. Wrth blannu’r goedwig genedlaethol dylid osgoi mawndiroedd.

Casgliad 48. Dylai’r Fframwaith nodi’r asedau coetir presennol. Dylai’r goedwig genedlaethol hybu ymhellach y gwaith o warchod y coedwigoedd glaw Celtaidd sydd o arwyddocâd byd-eang.

Casgliad 49. Dylid achub ar y cyfle i wneud cysylltiadau rhwng rhwydweithiau seilwaith gwyrdd a’r agendâu tai ac adnewyddu trefol. Dylid gwneud cysylltiadau hefyd rhwng rhwydweithiau seilwaith gwyrdd, y goedwig genedlaethol a’r agenda twristiaeth a hamdden drwy fentrau fel y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.

Casgliad 50. Mae angen mwy o eglurder am rôl lleiniau glas yn y strategaeth genedlaethol a rhanbarthol; y disgresiwn a roddir i’r Cynlluniau Datblygu Strategol o ran eu diffinio; y berthynas rhwng rolau lleiniau glas a seilwaith gwyrdd; a pherthynas bosibl lleiniau glas â’r polisi o ran y goedwig genedlaethol.

10. Ystyried y Fframwaith gan y Cynulliad

117. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad ystyried y Fframwaith drafft cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol. Bydd gan y Cynulliad 60 diwrnod eistedd i'w ystyried. Disgwylwn i'r cyfnod ymgynghori statudol hwn ddechrau ym mis Ebrill 2020.

118. Yn ôl y Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried penderfyniadau neu argymhellion a wneir gan y Cynulliad, neu unrhyw un o'i bwyllgorau, wrth benderfynu a ddylid diwygio'r Fframwaith drafft ai peidio.

119. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad ochr yn ochr â'r Fframwaith terfynol yn dweud sut y maent wedi ystyried penderfyniadau neu argymhellion y Cynulliad.

Casgliad 51. Dylai'r Pwyllgor Busnes, sef Pwyllgor y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb am ystyried gweithdrefnau'r Cynulliad, gyflwyno cynigion i hwyluso'r gwaith o graffu ar y Fframwaith terfynol yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Dylai wneud hynny trwy ymgynghori â Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid allanol a Phwyllgorau'r Cynulliad.